

Proses arfaethedig ar gyfer awdurdodi diberfeddiad gohiriedig a diberfeddiad rhannol dofednod yn lladd-dai dofednod cymeradwy'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB)

Tudalen Crynhoi'r Ymgynghoriad

Dyddiad lansio:	19 Tachwedd 2018	Dyddiad cau:	11 Chwefror 2019
------------------------	-------------------------	---------------------	-------------------------

I bwy fydd yr ymgynghoriad hwn o ddi-ddordeb fwyaf?

Lladd-dai dofednod (pob rhywogaeth dofednod) cymeradwy'r ASB yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a rhanddeiliaid eraill â buddiant.

Beth yw pwnc yr ymgynghoriad hwn?

Awdurdodi Diberfeddiad Gohiriedig a Diberfeddiad Rhannol Dofednod

Mae Rheoliad (EC) 853/2004 yn caniatáu diberfeddiad gohiriedig a diberfeddiad rhannol dofednod (a elwir fel arfer yn ddofednod effilé), i'w gynnal os caiff ei awdurdodi gan yr awdurdod cymwys. Mae'r papur hwn yn cynnig sut y caiff y prosesau hyn eu hawdurdodi.

Beth yw diben yr ymgynghoriad hwn?

Rhoi'r cyfle i randdeiliaid wneud sylwadau ar gynigion i awdurdodi Gweithredwyr Busnes Bwyd yn lladd-dai cymeradwy'r ASB i gynnal diberfeddiad gohiriedig a diberfeddiad rhannol dofednod. Efallai y bydd rhanddeiliaid am ystyried y pwyntiau canlynol wrth ddarllen ac ymateb:

- A ydych yn cytuno â chynigion yr ASB ynghylch awdurdodi sefydliadau ar gyfer cynhyrchu dofednod diberfeddiad gohiriedig?
- A ydych yn cytuno â chynigion yr ASB ynghylch awdurdodi sefydliadau ar gyfer cynhyrchu dofednod diberfeddiad rhannol neu effilé?
- Ystyrir bod y costau i'r diwydiant yn ddibwys. Fodd bynnag, byddem yn croesawu barn rhanddeiliaid ar yr effaith os bydd Gweithredwyr Busnes Bwyd yn rhoi'r gweithdrefnau hyn ar waith yn ffurfiol.

Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn drwy e-bost, post neu ar-lein i'r canlynol:

Uned Cymorth Corfforaethol Ffôn: 0207 276 8083 E-bost: csulondontransactions@food.gov.uk	Cyfeiriad post: Food Standards Agency, Corporate Support Unit, Clive House, 70 Petty France, London, SW1H 9EX	Ar-lein: SurveyMonkey drwy: https://www.surveymonkey.co.uk/r/M5SBPNX Saesneg: https://www.surveymonkey.co.uk/r/M53R3YV
---	--	--

Asesiad effaith wedi'i gynnwys?

Do

Naddo Gweler **Atodiad I**

SGÔR HYLENDID BWYD

FOOD HYGIENEGATING

food.gov.uk/ratings



BUDDSODDWR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE



Proses arfaethedig ar gyfer awdurdodi diberfeddiad gohiriedig a diberfeddiad rhannol dofednod yn lladd-dai dofednod cymeradwy'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB)

Manylion yr ymgynghoriad

Cyflwyniad

1. Mae rheoliad (EC) 853/2004 yn caniatáu diberfeddiad gohiriedig a diberfeddiad rhannol dofednod, a elwir fel arfer yn ddofednod effilé, i'w gynnal os caiff ei awdurdodi gan yr awdurdod cymwys.
2. Ar ôl i rai lladd-dai dofednod cymeradwy'r ASB fynegi diddordeb, mae'r ASB wedi awdurdodi nifer bach o ladd-dai i gynnal diberfeddiad gohiriedig a rhannol dofednod ar sail treial. Mae'r ASB bellach am gyflwyno prosesau safonol i awdurdodi'r gweithgareddau hyn drwy roi'r cyfle i holl ladd-dai dofednod cymeradwy'r ASB fanteisio ar y gweithdrefnau hyn.
3. Mae'r ASB yn ceisio barn rhanddeiliaid ar y broses i awdurdodi 'Diberfeddiad Gohiriedig' a 'Diberfeddiad Rhannol' dofednod.
4. Cynigir bod y broses awdurdodi yn cael ei rhoi ar waith yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r cynigion wedi'u datblygu mewn partneriaeth â Safonau Bwyd yr Alban (FSS), sy'n cynnig rhoi'r un dull awdurdodi ar waith mewn lladd-dai dofednod cymeradwy yn yr Alban.

Cefndir

5. Mae Adran II, Pennod IV, pwynt 7 (c) yn Atodiad III, o Reoliad (EC) 853/2004 yn nodi bod rhaid tynnu perfedd neu rannau o berfedd sydd ar ôl yn y carcass, ac eithrio'r arenau, yn gyfan gwbl yn dilyn archwiliad ar ôl lladd, os yw'n bosibl, a chyn gynted ag y bo'n bosibl, oni awdurdodwyd yn wahanol gan yr awdurdod cymwys.
6. Yn dilyn diddordeb y diwydiant mewn cymhwyso'r hyblygrwydd hwn yn y DU, comisiynodd yr ASB brosiect i asesu risg diberfeddiad rhannol. Cwblhawyd y gwaith yn 2014, gan ddod i'r casgliad nad oes risg uwch i iechyd y cyhoedd yn gysylltiedig â diberfeddiad rhannol o'i gymharu â diberfeddiad llawn o'r carcass. Cyhoeddwyd adroddiad terfynol y gwaith hwn ar wefan yr ASB drwy:
<http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20180411180156/https://www.food.gov.uk/science/research/foodborneillness/meathygieneresearch/fs101044> (Saesneg yn unig)
7. Mae archwiliad dofednod ar ôl lladd – Rheoliad (EC) 854/2004 sy'n gosod rheolau penodol ar drefnu rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid i'w bwyta gan bobl yn ei gwneud yn ofynnol i garcasau ac offal cysylltiedig fod yn destun archwiliad ar ôl lladd ar unwaith. Dylid archwilio'r holl arwynebau allanol.
8. Dehongliad yr ASB o Reoliad (EC) 853/2004, yn gyffredinol, yw bod rhaid tynnu'r holl berfedd, ac eithrio'r arenau, yn gyfan gwbl o'r carcass cyn gynted ag y bo'n bosibl yn dilyn yr archwiliad ar ôl lladd (Atodiad III, Adran II, Pennod IV, pwynt 7

c). Fodd bynnag, gall yr awdurdod cymwys ganiatáu gohirio diberfeddiad os nad yw hynny'n peri pryderon iechyd neu hylendid.

9. Er bod Rheoliad (EC) 853/2004 yn dweud bod rhaid tynnu'r holl berfedd yn gyfan gwbl, oni awdurdodwyd yn wahanol gan yr awdurdod cymwys, mae Erthygl 3 o Reoliad Marchnata Dofednod yr UE (Rheoliad Comisiwn 543/2008) yn caniatáu marchnata adar a ddiberfeddir yn rhannol, a elwir yn rhai effilé. Mae'r ASB hefyd yn ymwybodol bod adar a ddiberfeddir yn rhannol yn cael eu rhoi ar y farchnad yn Aelod-wladwriaethau eraill yr UE.

Diberfeddiad Gohiriedig

10. Yn dilyn canlyniad yr ymchwil a gomisiynwyd gan yr ASB, a threialu awdurdodi'n llwyddiannus mewn nifer bach o ladd-dai dofednod y DU, mae'r ASB yn cynnig awdurdodi diberfeddiad gohiriedig yn genedlaethol (h.y. awdurdodi holl ladd-dai dofednod cymeradwy'r ASB i gynnal diberfeddiad gohiriedig).
11. Dehongliad yr ASB o Reoliad (EC) 853/2004, yn gyffredinol, yw bod rhaid tynnu'r holl berfedd, ac eithrio'r arenau, yn gyfan gwbl o'r carcass cyn gynted ag y bo'n bosibl yn dilyn yr archwiliad ar ôl lladd (Atodiad III, Adran II, Pennod IV, pwynt 7 c). Fodd bynnag, gall yr awdurdod cymwys ganiatáu gohirio diberfeddiad os nad yw hynny'n peri pryderon iechyd neu hylendid.
12. Bydd yr awdurdodiad yn caniatáu i'r perfedd gael ei adael yn y carcass ar ôl lladd am gyfnod nad yw'n hwy na 15 diwrnod os caiff ei storio ar dymheredd nad yw'n fwy na 4°C. Mae hyn yn adlewyrchu'r gofynion yn Rheoliad 853/2004 (Atodiad III, Adran II, Pennod VI, paragraff 9) ar gyfer diberfeddiad gohiriedig dofednod a gafwyd yn y fferm gynhyrchu, a all fod yn destun diberfeddiad gohiriedig wedyn mewn lladd-dy neu safle torri cig cymeradwy yn yr un Aelod-wladwriaeth â'r fferm gynhyrchu.

Gweler **Atodiad II** am ragor o fanylion.

Diberfeddiad Rhannol

13. Yn ychwanegol at lai o archwiliad ar ôl lladd a mwy o drafod â llaw, mae angen dull prosesu mwy penodol ar Ddiberfeddiad Rhannol. Roedd y ffactorau hyn yn hanfodol yn y penderfyniad i fabwysiadu proses awdurdodi fesul achos a fyddai'n cynnig yr ateb gorau i sicrhau bod yr holl Weithredwyr Busnes Bwyd sydd wedi'u hawdurdodi'n cydymffurfio â'r gweithdrefnau sy'n ofynnol. Mae dau fater yn codi mewn perthynas ag archwiliad ar ôl lladd dofednod effilé:
 - Mae'r straen ar y llaw wrth agor ceudod y carcass er mwyn archwilio'r perfedd y tu mewn yn gyfystyr â risg iechyd a diogelwch. Am y rheswm hwn, rydym yn cynnig mai dim ond mewn sampl o garcasau y dylai fod yn ofynnol archwilio'r carcass a'r perfedd yn llawn. Bydd maint sampl o isafswm o 20 o adar neu 10% o'r llwyth, p'un bynnag sydd fwyaf, yn destun archwiliad ar ôl lladd llawn. Mae'r ASB yn credu bod hyn yn ystadegol gynrychioliadol i ganfod unrhyw broblem mewn llwyth. Byddai angen cynyddu'r gyfradd o archwiliad ar ôl lladd pe bai problemau'n cael eu canfod yn y samplau.

- Mewn perthynas â gweithdrefnau archwiliad ar ôl lladd, dim ond yr afu, organ gymharol fawr, y gellir ei archwilio yn y carcass. Byddai'r organau eraill, fel y galon a fyddai fel arfer yn cael ei harchwilio ar gyfer pericarditis (er bod yr achosion o wrthod ar gyfer y cyflwr hwn yn gymharol isel) a'r lasog yn cael eu cuddio gan yr afu ac ni ellir gweld eu harwynebau allanol.

14. Mae'r ASB wedi bod yn archwilio gyda'r diwydiant y rhagofynion y mae'n rhaid i ladd-dai dofednod eu rhoi ar waith er mwyn cael awdurdodiad ar gyfer diberfeddiad rhannol dofednod.

Gweler **Atodiad III** am ragor o fanylion.

Proses Ymgynghori

15. Mae hwn yn ymgynghoriad deuddeg wythnos ar y prosesau awdurdodi arfaethedig ar gyfer Diberfeddiad Gohiriedig a Rhannol. Mae angen ymatebion erbyn diwedd oriau busnes ar 4 Ionawr 2019. Yn eich ymateb, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn preifat neu ar ran sefydliad/cwmni, gan gynnwys manylion rhanddeiliaid y mae eich sefydliad yn eu cynrychioli.
16. Yn dilyn yr ymgynghoriad, byddwn yn adolygu'r ymatebion a gafwyd. Bydd crynodeb o'r holl sylwadau a gafwyd ac ymatebion yr ASB yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr ASB o fewn tri mis i ddiwedd y cyfnod ymgynghori.

Asesiad Effaith

17. Bydd angen tystiolaeth o'r diwydiant ynghylch yr effaith y bydd y broses awdurdodi arfaethedig yn ei chael er mwyn i'r ASB asesu effaith lawn y mesurau hyn. Felly, byddem yn croesawu barn y diwydiant, yn benodol:

a. Pa mor debygol ydych o fanteisio ar y broses awdurdodi arfaethedig ar gyfer diberfeddiad gohiriedig neu rannol?

b. Os ydych, sut y bydd awdurdodi diberfeddiad gohiriedig neu rannol o fudd i'ch busnes? Yn benodol, a fydd awdurdodi diberfeddiad gohiriedig neu rannol yn:

- **Agor marchnad newydd?**
- **Cynyddu lefelau cynhyrchu?**
- **Lleihau costau cynhyrchu?**

c. A ydych yn canfod unrhyw feichiau o'r broses awdurdodi arfaethedig ar gyfer diberfeddiad gohiriedig neu rannol?

Ar gyfer pob cwestiwn, ceisiwch esbonio eich ymatebion fel y gallwn ddeall yn llawn effaith debygol y mesur hwn.

18. Er mwyn cyflwyno **ymateb i'r ymgynghoriad hwn**:

Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn drwy e-bost, post neu ar-lein i'r canlynol:		
Uned Cymorth Corfforaethol Ffôn: 0207 276 8083 E-bost: csulondontransaction@food.gov.uk	Cyfeiriad post: Food Standards Agency, Corporate Support Unit, Clive House, 70 Petty France, London, SW1H 9EX	Ar-lein: SurveyMonkey drwy: https://www.surveymonkey.co.uk/r/M5SBPN X Saesneg: https://www.surveymonkey.co.uk/r/M53R3Y V

Diolch i chi ar ran yr ASB am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn.

Yn gywir,

Howard Betts
Polisi Bwyd
Asiantaeth Safonau Bwyd

Amgaeedig

- **Atodiad I:** Gwybodaeth Safonol am yr Ymgynghoriad – tudalen 6
- **Atodiad II:** Gofynion awdurdodi **Diberfeddiad Gohiriedig Dofednod** – tudalen 8
- **Atodiad III:** Gofynion awdurdodi **Diberfeddiad Rhannol neu effilé wrth gynhyrchu dofednod** – tudalen 9
- **Atodiad IV:** Rhestr o bawb sydd â diddordeb – tudalen 12

Atodiad I: Gwybodaeth safonol am yr ymgynghoriad

Datgelu'r wybodaeth a ddarperir gennych

Efallai caiff yr wybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn ei chyhoeddi i bartïon eraill neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os dymunwch i'r wybodaeth yr ydych yn ei rhoi gael ei thrin yn gyfrinachol, byddwch yn ymwybodol bod yna God Ymarfer statudol o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef. Mae'n ymdrin, ymhlith pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd.

O ystyried hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam eich bod yn ystyried yr wybodaeth a roddwyd gennych yn gyfrinachol. Os cawn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd dan bob amgylchiad.

Ni fydd unrhyw ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ar ei ben ei hun, yn cael ei ystyried fel un sy'n rhwymo.

Yr ASB fydd 'Rheolydd' y data personol a ddarperir i ni.

Pam ein bod yn casglu eich data personol a'r hyn a wnawn â'r data hwnnw

Mae eich data personol yn cael ei gasglu fel rhan hanfodol o'r broses ymgynghori, fel y gallwn gysylltu â chi ynglŷn â'ch ymateb ac at ddibenion ystadegol. Efallai hefyd y byddwn yn ei ddefnyddio i gysylltu â chi am faterion cysylltiedig.

Mae Deddf Diogelu Data 2018 yn datgan y gall yr ASB, fel adran o'r llywodraeth, brosesu data personol fel bo'r angen er mwyn cyflawni tasg sydd er budd y cyhoedd yn effeithiol h.y. ymgynghoriad.

Dim ond am y cyfnod sydd ei angen i gyflawni'r swyddogaethau hyn rydym ni'n cadw gwybodaeth bersonol, ac yn unol â'n polisi cadw. Mae hyn yn golygu y byddwn ni'n cadw'r wybodaeth hon am uchafswm o 7 mlynedd wedi iddi ddod i law.

Mae'r holl ddata personol rydym ni'n ei brosesu yn byw ar weinyddion o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Mae ein gwasanaethau cwmwl wedi'u caffael drwy Gytundebau Fframwaith y Llywodraeth a'u hasesu yn erbyn egwyddorion cwmwl y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol.

Nid oes gan drydydd partïon fynediad at eich data personol oni bai bod y gyfraith yn caniatáu iddynt wneud hynny. Bydd yr ASB weithiau'n rhannu data gydag adrannau eraill y llywodraeth, cyrff cyhoeddus a sefydliadau sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau statudol, neu pan fydd er budd y cyhoedd.

Beth yw eich hawliau?

Mae gennych chi'r hawl i weld yr wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi drwy wneud cais ysgrifenedig i'r cyfeiriad e-bost isod. Os ydych chi ar unrhyw adeg o'r farn bod yr wybodaeth rydym ni'n ei phrosesu amdanoch chi yn anghywir, gallwch chi wneud cais i'w chywiro. Os hoffech chi wneud cwyn am y ffordd rydym ni wedi trin eich data personol, gallwch chi gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data a fydd yn ymchwilio i'r mater.

Os nad ydych chi'n fodlon â'n hymateb neu os ydych chi o'r farn nad ydym yn prosesu eich data personol yn unol â'r gyfraith, fe allwch chi gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn <https://ico.org.uk/>, neu drwy ffonio 0303 123 1113.

Ein Swyddog Diogelu Data yn yr ASB yw Arweinydd y Tîm Rheoli Gwybodaeth a Diogelwch. Gallwch chi gysylltu drwy anfon e-bost at: informationmanagement@food.gov.uk.

Rhagor o wybodaeth

Os ydych chi angen y ddogfen hon mewn fformat sy'n haws i'w ddarllen, anfonwch fanylion at y cyswllt a enwir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a bydd eich cais yn cael ei ystyried.

Atodiad II

Gofynion awdurdodi diberfeddiad gohiriedig dofednod

Cynigir y dylid awdurdodi'r dull cynhyrchu hwn yn genedlaethol, ar yr amod bod Gweithredwyr Busnes Bwyd sydd am gael eu hawdurdodi'n gallu bodloni amodau penodol. At ddibenion archwiliad, caiff cofnod ffurfiol ei gadw o'r sefydliadau sy'n bodloni'r gofynion ac sydd, felly, wedi'u hawdurdodi i gynnal diberfeddiad gohiriedig. **Bydd angen i ffurflen gais syml gael ei llenwi gan y Gweithredwr Busnes Bwyd sydd am gynnal y broses mewn ymgynghoriad â'r Milfeddyg Swyddogol.**

Wrth ystyried ceisiadau, bydd yr ASB yn ystyried hanes cydymffurfio blaenorol â chyfraith bwyd ac ymrwymiad rheoli presennol y Gweithredwr Busnes Bwyd i arferion hylendid a gweithdrefnau HACCP yn y sefydliad.

Mewn achosion lle nad yw'r Gweithredwr Busnes Bwyd yn cydymffurfio â'r amodau hylendid, caiff yr hierarchaeth orfodi arferol ei dilyn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Os na fydd hynny'n sicrhau'r gwelliant a ddymunir, gellir atal y broses diberfeddu gohiriedig gan ddefnyddio'r gweithdrefnau gorfodi safonol.

Bydd y milfeddyg swyddogol yn ystyried yr amodau canlynol cyn i'r broses ddechrau:

- Y Gweithredwr Busnes Bwyd i roi gweithdrefn neu weithdrefnau ar waith, a gweithredu a chynnal hyn yn seiliedig ar egwyddorion HACCP ar gyfer y broses hon.
- Gellir gadael perfedd yn y carcass ar ôl lladd am gyfnod nad yw'n hwy na 15 diwrnod ar dymheredd nad yw'n fwy na 4°C. Mae hyn yn adlewyrchu gofynion Rheoliad 853/2004 (Atodiad III, Adran II, Pennod VI, paragraff 9) ar gyfer diberfeddiad gohiriedig dofednod a laddwyd ar y fferm. Os yw Gweithredwyr Busnes Bwyd am ddefnyddio cyfuniadau amser/tymheredd eraill, bydd angen iddynt lunio asesiad risg gan ddefnyddio egwyddorion HACCP er mwyn cefnogi unrhyw achos o wro o'r maen prawf hwn.
- Dylai carcassau nad ydynt wedi'u diberfeddu gael eu cadw mewn oerwr ar wahân neu, os nad yw hyn yn bosibl, dylid eu gwahanu'n ddigonol oddi wrth garcassau eraill neu fwyd er mwyn atal perygl traws-heintio.
- Pan gynhelir diberfeddiad, bydd angen tynnu'r perfedd yng ngheudod y corff yn gyfan gwbl mewn modd hylan. Mewn achosion lle mae'r llwybr perfeddol yn cael ei rwygo ac, yn dilyn hynny, yn heintio'r carcass neu'r offal, rhaid i'r rhannau halogedig gael eu tocio neu eu golchi'n drwyadl â dŵr yfed neu, lle y bo angen, eu gwaredu fel sgîl-gynhyrchion anifeiliaid.
- Bydd angen i Weithredwyr Busnes Bwyd addasu'r llinellau prosesu ar gyfer y gweithrediad hwn er mwyn sicrhau y gellir cynnal archwiliad ar ôl lladd yn effeithiol.

Atodiad III

Gofynion awdurdodi diberfeddiad rhannol dofednod

Cynigir y dylid awdurdodi'r math hwn o gynhyrchu fesul safle. Caiff cofnod ei gadw o'r sefydliadau sy'n bodloni'r gofynion ac sydd, felly, wedi'u hawdurdodi i gynhyrchu dofednod diberfeddiad rhannol neu effilé.

Bydd angen i ffurflen gais gael ei llenwi gan y Gweithredwr Busnes Bwyd sydd am gynnal y broses mewn ymgynghoriad â'r milfeddyg swyddogol. Bydd yr arweinydd meddygol maes perthnasol hefyd yn cael ei hysbysu.


Os caiff y cais ei awdurdodi, bydd y ffurflen yn cofnodi'r awdurdodiad a'r amodau y dyfernir yr awdurdodiad yn unol â hwy. Caiff dogfen gymeradwyo'r Gweithredwr Busnes Bwyd ei diweddarau hefyd i gynnwys yr awdurdodiad hwn. Os na ddyfernir cais, bydd y Gweithredwr Busnes Bwyd yn cael ei hysbysu a chynigir y bydd hawl apelio mewn achosion o'r fath. Wrth ystyried ceisiadau, bydd yr ASB yn ystyried hanes cydymffurfio blaenorol â chyfraith bwyd ac ymrwymiad rheoli presennol y Gweithredwyr Busnes Bwyd i arferion hylendid a gweithdrefnau HACCP yn y sefydliad.

Mewn achosion lle nad yw'r Gweithredwr Busnes Bwyd yn cydymffurfio â'r amodau, caiff yr hierarchaeth orfodi arferol ei dilyn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Os na fydd hynny'n sicrhau'r gwelliant a ddymunir, caiff yr awdurdodiad ei dynnu'n ôl. Bydd y rhesymau dros dynnu awdurdodiad yn ôl yn cael eu cyfleu i'r Gweithredwr Busnes Bwyd yn ysgrifenedig a bydd hawl apelio yn erbyn penderfyniad o'r fath hefyd.

Cynigir y bydd yr amodau canlynol yn gymwys ar gyfer pob awdurdodiad:

- Y Gweithredwr Busnes Bwyd i roi gweithdrefn neu weithdrefnau ar waith, a gweithredu a chynnal hyn yn seiliedig ar egwyddorion HACCP ar gyfer y broses hon.
- Dim ond adar iach o heidiau iach a fydd yn gymwys ar gyfer diberfeddiad rhannol. Gall y milfeddyg swyddogol wrthod y llwyth ar gyfer diberfeddiad rhannol a'i gwneud yn ofynnol i'r holl adar gael eu diberfeddu'n llawn a chyflwyno'r offal i'w archwilio, os yw gwybodaeth am y gadwyn fwyd yn awgrymu y bu problemau iechyd mewn fferm (e.e. cyfradd marwolaethau uchel, hanes o glefydau, ac ati).
- Ni fydd llwythi o ddofednod nad ydynt wedi'u profi ar gyfer presenoldeb salmonela a'r rhai sydd wedi profi'n bositif yn gymwys ar gyfer diberfeddiad rhannol.
- Bydd diberfeddiad rhannol dofednod yn golygu y gall y galon, yr afu, yr ysgyfaint, yr arenau, y gropa, y crombil a'r lasog aros yn yr aderyn.
- Pan gynhelir diberfeddiad rhannol, bydd angen gofal i dynnu'r llwybr perfeddol mewn modd hylan a heb ei rwygo ac yn y fath ffordd y caiff ei dynnu o'r man lle mae'n cysylltu â'r lasog. Gweler y diagram isod.
- Mewn achosion lle mae'r llwybr perfeddol wedi'i rwygo a'i fod, yn dilyn hynny, yn heintio'r carcass mewnol a/neu'r offal a fydd yn aros yn y carcass, bydd angen

diberfeddu'r carcass yn llawn a bydd yn rhaid i'r rhannau halogedig gael eu tocio neu eu golchi'n drwyadl â dŵr yfed neu, lle bydd angen, eu gwaredu fel sgîl-gynhyrchion anifeiliaid. Fel arall, argymhellir na ddylid golchi'r rhannau mewnol.



- Bydd angen i Weithredwyr Busnes Bwyd addasu'r llinellau prosesu ar gyfer y gweithrediad hwn er mwyn sicrhau y gellir cynnal archwiliad ar ôl lladd yn effeithiol.
- Bydd angen archwilio'r holl arwynebau carcassau allanol a pherfedd cysylltiedig yr adar sy'n dangos abnormaleddau os nad ydynt wedi'u tynnu yn y man archwilio aderyn cyfan.
- Bydd maint sampl o isafswm o 20 o adar neu 10% o'r llwyth, p'un bynnag sydd fwyaf, yn destun archwiliad ar ôl lladd llawn, h.y. archwilio'r carcass a'r perfedd (yr offal gwyrdd a choch). Mae dau opsiwn ar gael i'r Gweithredwr Busnes Bwyd:
 - I. caiff y llwybr perfeddol ei dynnu a'i gyflwyno i'w archwilio gyda gweddill y perfedd yn cael ei archwilio y tu mewn i'r aderyn. Bydd yn rhaid i'r Gweithredwr Busnes Bwyd addasu cyflymder y llinell er mwyn caniatáu ar gyfer y driniaeth hwy hon; neu

- II. Mae'r Gweithredwr Busnes Bwyd yn diberfeddu'n llawn 20 o adar neu 10% o'r llwyth o adar (p'un bynnag sydd fwyaf) a chaiff y perfedd (yr offal gwyrdd a choch) ei archwilio gyda'r carcasau y caiff ei dynnu ohonynt.
- Os yw'r archwiliadau ar ôl lladd rhagarweiniol yn dangos lefel anarferol o wrthodiadau, dylid cynyddu lefel archwilio'r perfedd i foddhad y milfeddyg swyddogol, gan gynnwys hyd at 100% os bydd angen.

Atodiad IV

Ymgynghoriad: Diberfeddiad gohiriedig a diberfeddiad rhannol dofednod

Rhestr o bawb sydd â diddordeb

Lladd-dai dofednod cymeradwy yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon
Adrannau Llywodraethol eraill

Cyngor Dofednod Prydain
Cymdeithas Proseswyr Cig Prydain
Cymdeithas Cyflenwyr Cig Annibynnol
Hallmark – Gwasanaethau Milfeddygol a Chydymffurfio
Eville & Jones
Hybu Cig Cymru
Y Gymdeithas Masnach Cig Rhyngwladol
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
Ffederasiwn Cenedlaethol Masnachwyr Cig a Bwyd
Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA)
Cymdeithas Genedlaethol o Gigyddion Arlwy
Hampshire Game
Undeb Amaethwyr Cymru
Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru
Adran Amaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (Gogledd Iwerddon)